YR YMOFYNYDD.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] EBRILL, 1898. [RHIF 124.

EIN MUDIAD YMOSODOL: BETH YDYW?

GAN D. DELTA EVANS, LLUNDAIN.

"*Rhedwn yr yrfa a osodwyd o'n blaen ni, gan edrych ar Iesu, pentywysog a pherffeithydd ein ffydd ni.*"—HEBREAID xii. 1, 2.

I.

YN yr oesau gynt clywid cryn lawer o son am "ddiwygiadau" a "deffroadau," a'r drychfeddwl gyflëid ar unwaith gan yr awgrymiad o'r hen eiriau gogoneddus hyn fyddai rhyw adfywiad anarferol yn y byd crefyddol. Ond erbyn heddyw, y mae y "deffroad" a'r "diwygiad" wedi rhoddi ffordd i ddesgrifiadau mwy ffasiynol ond mwy clogyrnaidd ac anystwyth. Yn awr y mae gan bob enwad ei *Forward Movement*, ei fudiad rhag blaen, ei fudiad ymosodol, ac y mae y syniadau a goleddir gan y gwahanol enwadau o barth natur ac amcan y cyfryw yn amrywiol iawn. Yn wir, anhawdd yw gweled fod y mudiadau hyn, fel rheol, yn golygu dim mwy na dim llai na math o gysegriad adnewyddol i hen gredöau; math o ail-ymlyniad egniol wrth draddodiad, neu ymgais ddallbleidiol i gael y bobl i ymostwng o'r newydd i awdurdod, fel ag i'w hadrwymo yn ddyogelach mewn caethiwed meddyliol â llyffetheiriau defodaeth ac ofergoeledd! Eithr am grefydd ryddfrydig—y grefydd syml a dyngarol a gyhoeddid gan Iesu o Nazareth, yr Hwn y ceisiwn ninau ei ddilyn—y mae hon o angenrheidrwydd, ac yn ystyr goreu y frawddeg, yn fudiad rhag blaen; y mae PROGRESS! a FORWARD!—CYNYDD! ac YN MLAEN!—yn argraffedig mewn prif

lythyrenau ar ei baner, a'n dymuniad ydyw chwifio'r faner hon—baner rhyddid meddyliol, addysg, a gwelliant—a'i dyrchafu yn ddigon uchel yn meddyliau y bobl, ac mor eglur nes gallo'r byd wrth redeg ddarllen yr hyn sydd arni! Y mae y grefydd hon yn ei hanfod a'i bywyd yn fudiad ymosodol—ymosoda ar lygredigaeth, ofergoeledd, ac anwybodaeth.

Fy amcan yn awr, ynte, ydyw ceisio ein cael i weled gwerth y grefydd ryddfrydig; i gyfranogi o'r ysbryd ymosodol, a'i feithrin hyd eithaf ein gallu. Ond gadewch i ni droi at y testyn.

Am tua thri can' mlynedd methai yr Eglwys a dyfod i unrhyw benderfyniad gyda golwg ar awduraeth yr Epistol y mae ein testyn yn rhan ohono; ond yn y diwedd priodolwyd ef i Paul, a dodwyd enw yr apostol hwnw wrtho. Y farn gyffredin ydyw mai Luc a'i hysgrifenodd, er mai Paul yw ei awdwr. Credai Martin Luther ei fod yn arddangos gormod o fanylwch astudiol i fod yn eiddo Paul, ac mai rhyw Iuddew o Alexandria, o'r enw Apolos, ydoedd ei wir awdwr. Ond beth bynag am hyny, cymerwn yn ganiataol yn awr mai i Paul ei hunan yr ydym yn ddyledus am yr Epistol at yr Hebreaid, ac iddo ef, felly, y priodolwn eiriau y testyn. Cynwysa yr Epistol hwn luaws o wersi buddiol, a chynghorion gwerthfawr i hen ac ieuainc; yr hyn ellir yn hawdd ei ddyweyd am holl weithiau yr Apostol Paul. Y mae y geiriau a ddarllenwyd yn dra nodweddiadol. Yn yr adnod hon cynghora Paul ni, nid yn unig i redeg yr yrfa osodwyd o'n blaen ni, ond i'w rhedeg hi mewn modd neillduol. Nid yw rhedeg yr yrfa yn unig yn ddigon; rhaid ei rhedeg hi i bwrpas, rhaid ei rhedeg hi yn llwyddianus. Ac mewn trefn i wneyd hyny, y mae yn ofynol i'r rhedegwr gadw ei olwg yn barhaus ar amcan penodol; rhaid iddo gyfeirio ei gamrau yn uniongyrchol at ryw nôd, rhyw wrthddrych arbenig. Na, ni thycia rhedeg yn unig, meddai Paul, os na sefydlir y golwg yn ddiysgog ar Iesu, "pentywysog a pherffeithydd ffydd." Efallai fod yma gyfeiriad at y campau a'r rhedegfeydd Groegaidd a Rhufeinig, y rhai oeddynt yn atdynu sylw yr holl fyd yn nyddiau yr apostol. Yn y campau hyny, y gwrthddrych mawr oedd gan yr ymgystadlwyr mewn golwg ydoedd y llawryf, y *laurel*.*

Wrth gwrs, nid ar y *laurel* fel y cyfryw y rhoddid y gwerth, ond ar y clod, yr anrhydedd, a'r enwogrwydd a gyflëid ar y rhedegwr llwyddianus trwy ei dderbyn yn uniongyrchol o ddwylaw beirniaid y campau. Hawdd gan hyny yw dychymygu fod y gystadleuaeth am y llawryf, fel *emblem* o anrhydedd, yn mhob ystyr yn llem ac yn boeth; mai y rhedegwyr goreu a chyflymaf yn unig a ganiateid i gystadlu; ac nad oedd yn werth hyd yn nod i'r rhai hyny gystadlu o gwbl os nad oeddynt yn penderfynu trethu eu holl yni, a thaflu eu hunain yn enaid a chalon i'r ornest.

---

* Prysgwydden fytholwerdd, â deilen beraroglaidd. Defnyddid dail, a grawn, a llawryf, yn gystal a'i risgl, i wneyd physigwriaeth.

Yno, yr oedd yn *rhaid* rhedeg yn dda, yr oedd yn *rhaid* rhedeg yn deilwng, fel ag i gadw i fyny glod a chymeriad pybyr y campau yn ngolwg y byd. Oddiwrth hyn, tybiwn fod Paul yn tynu gwers ymarferol parthed gyrfa bywyd—"Rhedwn yr yrfa a *osodwyd* o'n blaen ni." Yn y rhedegfeydd Groegaidd gellid *peidio* rhedeg o gwbl, os nad oeddid yn meddu ar ysbryd penderfynol, ysbryd ymosodol, ac os nad oeddid yn barod i wneyd y goreu o'r ysbryd hwnw.* Ond nid *matter of choice* fel yna ydyw gyrfa bywyd; eithr y mae yr yrfa hon *wedi ei gosod* o'n blaen ni, ac y mae yn *rhaid* i ni ei rhedeg hi. Os felly, ynte, ydyw yr ymresymiad, dodwn o'n blaen nôd arbenig i gyrchu ato, fel ag i redeg ein gyrfa yn deilwng a llwyddianus. Y mae cynghor yr apostol yma yn hollol ymarferol, oblegid gwyddai Paul yn brofiadol beth ydoedd bod yn feddianol ar yr ysbryd ymosodol; gwyddai ef yn burion fod yn rhaid wrth benderfynolrwydd di-ildio yn ymdrechfa bywyd. Pan yn eistedd wrth draed Gamaliel i dderbyn ei addysg foreuol, gellir tynu darlun dychymygol ohono yn edrych i fyny yn feddylgar a difrifol i wyneb ei athraw, ac yn gwrando yn astud ar ei gyfarwyddiadau, gan drysori yn ddwfn yn ei gof frawddegau cynwysfawr a gemau rhesymegol a meddyliol yr hen athronydd. Pan yn dilyn ei alwedigaeth o wneuthurwr pebyll, nis gallwn lai na chasglu oddiwrth ei awgrymiadau ef ei hunan ei fod ef bob amser yn ddiwyd a dyfalbarhaus. Pan yn teithio tua Damascus i erlid yr Eglwys, cyffesa ei fod yn frwdfrydig a phenderfynol, â'i holl yni meddyliol a chorfforol yn ei waith, er fod hwnw yn waith anheilwng. Ac yn awr, wedi ei droi o fod yn erlidiwr, wedi ei gyfnewid o ymosod ar yr Eglwys i ymosod ar bechod a llygredigaeth; wedi ei ddychwelyd o dywyllwch i oleuni; wedi cael agor ei lygaid i weled gwerth ymarferol crefydd Iesu o Nazareth, a chanfod gallu achubol Ei efengyl Ef yn nyrchafiad a dadblygiad dynoliaeth, a sylweddoli hyn yn ei fywyd ei hunan—y mae efe yr un mor awyddus ac egniol i ddwyn ereill i'r un sefyllfa ag y bu efe erioed gydag unrhyw orchwyl yn ystod ei fywyd.

Yn awr, pe gallem ni ysbrydoli ein mudiad â bywyd fel hyn, diau y dilynid ein hymdrechion â chanlyniadau pell-gyrhaeddol a hir-barhaol. Y mae yr Eglwysi Rhyddfrydig yn Nghymru yn amlygu awydd ymysgwyd o'u cysgadrwydd, ac y mae arwyddion ar bob llaw y ceir cyn bo hir ddeffroad crefyddol na welwyd mo'i fath yn yr hen wlad ei's llawer dydd. Yn ystod y blynyddoedd aethant heibio, efallai mai yr Undodiaid yw yr unig enwad yn y Dywysogaeth na fu yn offerynol rhywbryd neu gilydd i ddwyn oddiamgylch ddiwygiad crefyddol fu'n foddion i gyfranu rhyw gymaint tuag at welliant y wlad a dyrchafiad y bobl. Pa

---

* Ar ol dodi yr enw i lawr fel ymgystadlwr, a myned trwy yr arferion a'r parotoadau angenrheidiol, yna yr oedd yn *rhaid* cystadlu —nid oedd tynu yn ol i fod ar yr un cyfrif.

beth bynag ydoedd natur y cymhellion a ganfyddir genym fel wrth wraidd y chwildroadau hyny, addefwn yn rhwydd fod eu holion i'w canfod hyd heddyw yn nghymeriad crefyddol y bobl; eu bod wedi symud ymaith luaws o anhawsderau enfawr oddiar ffordd rhyddid a blaenfynediant, fel ag i barotoi meddyliau y bobl i dderbyn syniadau uwch a phurach a mwy goleuedig am grefydd, a'r berthynas sydd rhyngddynt â Duw fel eu Tad cyffredinol.

I mi, ymddengys hyn yn rheswm cryf paham y dylem ninau ymwthio yn mlaen gydag efengyl dyner a dyngarol crefydd ryddfrydig. Yr wyf yn credu yn gadarn, pe buasem ni unwaith yn llwyddo i gael y werin-bobl i amgyffred ein hamcanion, ac i sylweddoli a gwerthfawrogi y teimlad caredig a goleddir genym tuag atynt, fel ag i'w hargyhoeddi o anheilyngdod y rhagfarn a'r chwerwedd a fynwesir tuag atom ni yn gyffredin; pe buasem ni unwaith yn ffynu i'w cael i wrando ein pregethau a darllen ein llenyddiaeth yn ddifrifol a meddylgar—anturiaf ddyweyd y buasai gwedd ddysgleiriach, yn foesol a chymdeithasol, i'w gweled ar y genedl Cymreig nag sydd arni heddyw.

(I'w barhau.)

YR ADERYN.

YR aderyn gwych a'i dirion gân,
A'i nwyfus ddyddan iaith,
Sy'n llawnhau a'i bynciau'n ber,
Heb lid na chwerwder chwaith;
Cyweiria'i nyth yn gywrain iawn,
A diwyd gyflawn gais,
O ddydd i ddydd e' fydd yn fwyn
O lwyn i lwyn ei lais;
Mor hyfryd ganddo dremio draw
Ger llaw o gŵr y llwyn,
Ar ei gymhares gynes gu
Yn eiste sy yn glos i'w thŷ,
Gan ymddifyru'n fwyn;
Mae'n edrych arni i'w hoffi o hyd,
Ni chymer hawddfyd chwaith;
A'i charu o fryd a chywir fron,
Tra eisty hon mewn agwedd lon
Yn foddlon, er mor faith.

A phan ddel cywion hon yn haid
Yn weiniaid dani i wau,
I ddyfal borthi rheiny'n rhydd
Mor ddiwyd fydd y ddau;

Trafaelio 'mhell trwy ofal maith,
  A'u hymdaith fydd yn hy,
I geisio maeth a lluniaeth llon
  I'w cywion bychain cu;
A rhoddi addysg hyddysg iawn
  Naturiol ddawn wnant hwy,
I'w teulu gwael yn hael o hyd,
A'u dysgu'n nghyd i drin y byd,
  A pha gelfyddyd fwy?
A gwnant eu dysgu i fedru ar fyr
  I dreiddo'r awyr draw;
Pob un ar hedfa, redfa rydd,
A gais, heb gudd, ei fwyd a'i fudd
  Drwy fröydd yn ddi-fraw.

Oddiwrth yr adar, hawddgar hil,
  Yn gynil dysg a gawn,
Naturiol siamplau golau i gyd
  O ddull eu diwyd ddawn,
I drin y byd yn ddiwyd ddoeth
  A'i gyfoeth uwchlaw gwall,
Ei geisio a'i ddefnyddio'n iawn,
  Yn gyfiawn ac yn gall;
Rhieni'n wir a gywir gânt
  Hyfforddiant mewn hoff iaith,
O ddull y rhai'n ddiwallu eu rhyw,
A'u dysgu i fyw'n rhinweddol wiw,
  A gwerthfawr yw y gwaith;
Ystyrient, cadwent hyn mewn co,
  A'u hymdrech fyddo o hyd
Ofalu eu dysgu hwy bob dydd,
Er rhoddi'n rhydd wir fawl drwy ffydd
  I Ben Creawdydd byd.

"*Yr Eurgrawn Wesleyaidd*" J. PARRY.
(1820, *tudal.* 32).

Y GARAWYS.

MEWN syndod, dybiwn, a chyda gradd, o bosibl, o anfoddlonrwydd ysbryd, yr aeth dysgyblion Ioan at Iesu, ac y dywedasant, "Paham yr ydym ni a'r Phariseaid yn ymprydio yn fynych, ond Dy ddysgyblion Di nid ydynt yn ymprydio?" (Matt. ix. 14). Yr oedd yr ymholiad yn naturiol ddigon; ac yn naturiol ddigon, gallwn ddychymygu un o aelodau Eglwys Loegr neu Eglwys Rufain yn dyfod ac yn gofyn, Paham

yr ydym ni yn cynal ac yn cadw defodau ymprydiol y Garawys, tra nad ydych chwi, na neb, a'r a wyddom, o'r enwadau Anghydffurfiol, yn talu nemawr neu ddim sylw iddynt? Y mae yr ymholiad hwn hefyd yn deg ddigon. Paham, ynte, yr ydym ni yn cymeryd sarbwynt nacâol ar y pwnc? Er mwyn cael golwg iawn arno, nid anmhriodol fyddai i ni ofyn, Beth yw y Garawys? a Pha beth yw ei hanes wedi bod?

Enw y Sais ar y Garawys yw *Lent*, gair yn golygu *Gwanwyn*, tymhor estyniad y dydd, a thymhor a gysylltir genym â gobaith dysglaer ac â llawenydd pur, ac o'r braidd yn cyfateb i'r tristwch a'r trymder ysbryd cydfynedol â thymhor ymprydiol y Garawys. Llygriad yw y gair Cymraeg Garawys, fel y gair Llydaweg *Hoarays*, o'r Lladin *Quadragesima*, a'i gynystyr yn ei gysylltu â'r rhif deugain. Defnyddir ef heddyw i ddynodi tymhor neillduol a gedwir gan yr Eglwys yn dymhor o ympryd fel rhagbarotoad i'r Pasg. Fel ympryd yn gyffredinol, fe'i cedwir mewn canlyniad i'r meddwl fod marwhau a phoeni y corff yn rhoi boddlonrwydd i'r Goruchaf, ac yn help i wneyd iawn dros bechod, ac i adferu dyn drachefn i'r ffafr Ddwyfol.

Gellir olrhain y Garawys yn ol i adeg foreu yn hanes yr Eglwys, er fod yna gryn lawer o amrywiaeth gyda golwg ar ei barhad, yn ogystal a'r manylrwydd gyda'r hwn yr oedd yn cael ei gadw. Ar y cyntaf, nid oedd yn parhau ond deugain awr, sef yr amser tybiedig cydrhwng y croeshoeliad a'r adgyfodiad; ond bob yn ychydig, aeth y deugain awr yn ddeugain niwrnod, gyda math o gyfeiriad at ddyddiau ympryd Moses, Elias, ac Iesu. Sonia Gregori Fawr am y Garawys yn parhau chwech wythnos, yr hyn nid oedd ond 36 o ddyddiau, gan na chyfrifid y Suliau fel dyddiau ympryd. Cedwid y Garawys mewn rhai manau, ac ar rai prydiau, drwy lwyrymwrthod â phob math o fwyd hyd yr hwyr bob dydd ond y Sul; mewn manau ereill, ac ar amserau ereill, ymwrthodid â chig ac â gwin yn unig. Yn y cyffredin, ymwrthodid â phob peth a fyddai o nodwedd gwledd; yr oedd y gwasanaeth yn yr Eglwys yn fwy pruddaidd; rhoddid gorchudd ar bob darlun; ac yr oedd yr organ yn ddystaw. Dywedir na chedwid y Garawys yn ein gwlad ni hyd tua diwedd yr wythfed ganrif.

Cychwynir y Garawys yn ein gwlad ni yn awr ar ddydd Mercher y Lludw, a gafodd ei enw oddiwrth ddefod neillduol yn Eglwys Rhufain. Tybid yn briodol gynt i rybuddio y ffyddloniaid ar ddechreu y tymhor nad oeddynt ond llwch a lludw. Cymerai yr offeiriad y lludw, bendithiai ef, a thaenellai ddwfr sanctaidd arno; yna cymerai beth ohono ar flaen ei fysedd, a gwnelai arwydd y groes ar dalcen y ffyddloniaid, gan ddywedyd, "Memento, homo, quia cinis es, et in pulverem reverteris" (Cofia, ddyn, mai lludw wyt, ac mai i'r lludw y dychweli). Gwnelid y lludw fynychaf o ddail y palmwydd a gysegrid ar Sul y Blodau y flwyddyn flaenorol. Rhoddwyd heibio defnyddio lludw yn y wlad hon yn fuan wedi y Diwygiad mawr, gan yr edrychid ar yr arferiad erbyn hyny fel *vain show*, gwag-ym-

ddangosiad. *Vain show*, gwag ddefodau margaridiaidd, yn ein golwg ni heddyw yw llawer o'r hyn oedd gynt, ac sydd yn awr, yn myned dan yr enw crefydd. Mae yr hen ddefodau, gan nad faint o fywyd a ddichon fod ynddynt gynt, erbyn hyn wedi myned yn ddim amgen nag asglod sychion hollod ddirinwedd. Myned ar bererindod i Dyddewi—pa rinwedd achubol all fod yn hyny? Meddai Ieuan ab Rhydderch o Geredigion (1450) :—

"Cystal am ordal i mi
Dwywaith fyned at Dewi
A phed elwn i Rufain."*

Gwir, gwir iawn. Y mae un cystal a'r llall; pob un ohonynt yn haws i lawer na gadael pechu, a byw yn gyfiawn ac yn bur.

Rhyfedd y dyfalu a'r dyfeisio sydd wedi bod gyda dynion drwy yr oesau i gael gafael mewn rhyw ffordd rwydd ac esmwyth, dawel a didrafferth, i fyned i'r nefoedd; math o ffordd freninol, *royal road*, fyddai yn caniatau tipyn o ryddid yn weddol i ddilyn pob chwen a chwant drwy gydol bywyd, a chyrhaedd pen y daith yn ddyogel yn y diwedd. Rhwyddach pob peth nag ufuddhau i ofynion dyledswydd bob dydd yn ei ddydd. Cefnu ar y byd, a'i ofal, a'i drafferth, a'i bechod, a'i annuwioldeb, ac ymneillduo i ryw fonachdy neu i ryw ogof yn nghesail y bryn, yno i gyfrif gleiniau, a byw bywyd meudwyaidd; neu i ben colofn uchel, yn debyg fel y gwnaeth Simeon Stylites (390-459 o.c.), dan boethwres haf a rhew ac oerfel gauaf, dreulio 30 mlynedd ar ben colofn, 72 troedfedd o uchder, a phedair troedfedd o dryfesur. Ië, yno am 30 mlynedd y darfu iddo dreulio ei amser ddydd a nos, bob dydd a phob nos, ac ar bob tywydd, yn myfyrio o godiad haul hyd ei fachludiad, ac yn fynych yn pregethu i'r lluoedd a ymdyrent at fôn y golofn. Dyna grefydd yn ngolwg rhai yn yr hen amser: yn ein golwg ni heddyw, nid yw ddim amgen nag ofergoeliaeth noeth, a'r *very essence* o hunangarwch, sef gofalu am eu heneidiau eu hunain, eled eneidiau pobl ereill lle yr elont! Mwy tebyg, dybiwn i, y gwnai dyn achub ei enaid drwy ymdaflu yn llwyr i wasanaeth cymdeithas, a chyflwyno ei hun yn hollol at y gwaith o'i phuro, a'i gwellhau, a'i dyrchafu, na phendrymu uwchben ei gyflwr mewn ogof, neu fonachdy, neu ben colofn. Nid defod na seremoni, nid cyffes na chredo, yw crefydd dyn, gan nad faint o help i hyny y dichon iddynt fod. Credai rhai gynt fod tynu gwyneb hir, ymdreiglo mewn sachlian a lludw, a pheidio ymolchi yn rhan bwysig o grefydd; credwn ninau gyda'r Mahometaniaid, fod glanweithdra yn dal agosach perthynas â chrefydd na bryntni. "Cleanliness is next to godliness."

Agosach at sylwedd a hanfod crefydd yw pregeth y proffwyd na defodaeth yr offeiriad; ïe, felly yn mhob oes. Edrycher

---

* Roma semel quantum, bis dat Menevia tantum. Arall a ychwanegodd: "Mercedem similem reddit uterque locus."

Esaiah, y benod gyntaf, yn ofalus:—"Beth yw lluosogrwydd eich aberthau i Mi? medd yr Arglwydd: llawn ydwyf o boeth-aberthau hyrddod, ac o frasder anifeiliaid breision; gwaed bustych hefyd, ac ŵyn, a bychod, nid ymhyfrydais ynddynt. Pan ddeloch i ymddangos ger Fy mron, pwy a geisiodd hyn ar eich llaw, sef sengi Fy nghynteddau," &c. Eto, "Ymolchwch, ymlanhewch, bwriwch ymaith ddrygioni eich gweithredoedd oddi ger bron Fy llygaid. *Peidiwch a gwneuthur drwg; dysgwch wneuthur daioni:* ceisiwch farn, gwnewch uniondeb i'r gorthrymedig: gwnewch farn i'r amddifad, dadleuwch dros y weddw," &c.

Ac meddai Iesu wrth y Phariseaid: "Dysgwch beth yw hyn, Trugaredd yr ydwyf yn Ei ewyllysio, ac nid aberth." Nid oedd Iesu yn gofyn i'w ddysgyblion fod fel y rhagrithwyr, yn wynebdrist, ac anffurfio eu hwynebau; eithr yn hytrach i wneuthur eu hymprydiau pan fyddai raid mewn ffordd naturiol, ac yn eu diwyg arferol, wedi eneinio'r pen, a golchi'r gwyneb, Matt. vi. 16-18.

Dywed hen awdwr, hen iawn, mai swm y cwbl a glybuwyd yw, "Ofna Dduw, a chadw Ei orchymynion." Dyna wnelai Cornelius; ofnai Dduw, a gwnelai lawer o elusenau, a gweddïai Dduw yn wastadol. A daeth Pedr rywbryd i ddeall fod yr hwn sydd yn ofni Duw, ac yn gweithredu cyfiawnder, yn gymeradwy ganddo Ef. Ac yn ol Iesu, caru Duw a charu dyn yw y ddau orchymyn mawr ar y rhai y mae yr holl gyfraith a'r proffwydi yn sefyll.

Mawrth 8fed, 1898. T. C. U.

PENILLION I'R DIWEDDAR D. DAVIES, CWMANN, LLANBEDR.

Cydfuddugol yn Mrondeifi, Rhagfyr 15fed, 1897.
Cyhoeddir ar gais y Pwyllgor.

O! SEION anwylgu, wyt eto'n galaru,
Oherwydd i angeu dy gyffwrdd â'i gledd,
Yn amlwg mae'th lygaid fel ffynon o ddagrau,
Oblegid fod Dafydd dan gloion y bedd;
Darllenir cymeriad yr ymadawedig
Ar galon yr Eglwys a'r cyhoedd yn nghyd;
Mae gwron rhagorol yn Seion a syrthiodd,
A'i urddas yn llawer rhy deilwng i'r byd.

Bu'n briod cysurus, a thad mwyn, darbodus,
  Yn gyfiawn ymestyn at ddyddiol fwynhad,
Ac er bod ei ddwylaw gan waith yn galedion,
  Ei galon oedd dyner yn ngweithion ei Dad;
Rhagorol ddyngarwch orlenwai ei galon,
  A'i olew yn barod i leddfu ein loes,
A llinell ei fywyd, fel edau o arian,
  Yn estyn o bob man i riniau a moes.

O! lem oruchwyliaeth, ro'es golled ac alaeth,
  O'i phlegid mae mynwes Brondeifi yn wyw!
Yn absen ei blaenor fu g'nifer o flwyddi
  Fel un ymddiriedai yn dawel 'n ei llyw;
Yr uchel ragorfraint ddangosai fel manon,
  Trwy roddi ei galon i'r gorchwyl yn rhwydd;
Ei draed hefyd dystiai onestrwydd ei eiriau,
  Yr hyn a ro'es goron mawrhad ar ei swydd.

Difrifol hyfforddi y dô fyddai'n codi
  Yn Ngair y Gwirionedd yn ddyfal bu ef;
Ei ryfedd ffyddlondeb, a'i dduwiol eiddigedd,
  Oedd brydferth a gwerthfawr yn ngwinllan y Nef;
Aeth adre'n fendigaid o'r Sabbath daearol,
  Ar ol rhoi gwasanaeth prydnawnol i Dduw,
Y wŷs ddaeth i'w gyrchu yn sydyn i fyny
  I'r Sabbath trag'wyddol, ysbrydol, i fyw.

TABERNACLYDD.

(Mr. THOMAS MORGAN, Tancoed, Llanbedr.)

RHYDDID LLAFAR YN NGWYNEDD.

(Gwel "Hanesion" yn y Rhifyn hwn.)

MAE penderfyniadau diweddar Cynghorau Pwllheli a Ffestiniog, yn gwrthod cais Dr. Griffith, Pontypridd, am gael y neuaddau cyhoeddus (am dâl) i ddarlithio ynddynt ar byncian duwinyddol, yn codi i'r gwynt gwestiynau pwysig a thra difrifol. Yn ol yr awdurdod uchaf, nid yr hwn a enwaedwyd yn y cnawd sydd wir Israeliad, ond yr hwn sydd wedi ei enwaedu yn y galon. Felly, y mae'n bur amlwg fod llawer un sydd yn galw ei hun yn Brotestant mor gulfarn a'r

Pabydd mwyaf dallbleidiol, a bod llawer un sydd yn honi ei fod yn Rhyddfrydwr mor orthrymus ei osgo ac mor annyoddefgar ei anianawd a'r Tori rhoncaf yn y wlad.

Pa beth ydyw egwyddor sylfaenol Protestaniaeth? Onid hawl gynhenid pob dyn i farnu drosto ei hun yn nghylch pethau crefyddol, dan ymsyniad o'i gyfrifoldeb personol a digyfrwng i Dduw yn unig? Ai am ddim y bu cewri'r Diwygiad Protestanaidd yn herio gallu'r Pab o Rufain; neu, yn hytrach, ai er mwyn gorseddu pabau bychain ceiniog a dimai yn Ffestiniog a Phwllheli yr ymdrechasant ymdrech hyd at angeu? Tybed, mewn difrif, fod pobl dda Pwllheli a Ffestiniog wedi llwyr gredu fod awdwyr erthyglau Eglwys Loegr, Cyffes Ffydd y Methodistiaid, Catecism Cymanfa Westminster, casglwyr "Aberth Moliant," a golygydd y *War Cry* wedi dihysbyddu gwirioneddau'r Beibl, ac nas dichon neb mwyach, heb ryfyg, anturio newid dim ar ddamcaniaethau duwinyddol y bobl, nac hyd yn nod geisio gwneyd hyny! Mynych y clywir Eglwyswyr yn condemnio yr erledigaeth a ddyoddefasant yn amser Cromwell. Mae coffadwriaeth Penry a'r Ddwy Fil yn fyth-wyrdd yn mhlith yr Annibynwyr a'r Bedyddwyr. Yn y dyddiau hyn anhawdd i Fethodistiaid Calfinaidd a Wesleyaid ddirnad pa mor ffyrnig ydoedd yr ysweiniaid a'r werin gynt yn erbyn y diwygwyr oeddynt yn ceisio aflonyddu ar ddaliadau crefyddol eu hoes hwy. Yr unig beth sydd yn ein cynorthwyo i ryw fesur i amgyffred y cyfryw gynddaredd ydyw y mileindra a ddangoswyd yn ein dyddiau ni, yn llawer o drefi Lloegr, at y Cadfridog Booth a Byddin Iachawdwriaeth. Wedi'r cwbl, hawddach o lawer ydyw condemnio culni, rhagfarn, ac annyoddefgarwch mewn ereill—mewn gwledydd estronol ac mewn oesoedd pellenig—na charthu allan yr hen lefain o'n mynwesau ein hunain. Mor hawdd, er engraifft, yw condemnio yr Ysbaenwyr Pabyddol am wahardd addoliad Protestanaidd cyhoeddus yn eu gwlad, a chollfarnu "Synod Sanctaidd" Rwsia am alltudio i Siberia y rhai fyddont yn methu cydffurfio â'r Eglwys Sefydledig! Ofnwn fod miloedd lawer yn Nghymru heb sylweddoli mai gwarth i Calfin, ac nid clod, oedd y rhan a gymerodd yn y gwaith o losgi Serfed; a bod pob gweithred o benboethni annyoddefgar yn cyfranogi o'r gwarth hwnw.

Yn mhellach, Pa beth ydyw un o brif egwyddorion Rhyddfrydiaeth? Onid cydraddoldeb crefyddol? Oni ddadleuir genym nad oes gan y Wladwriaeth hawl i ymholi i ddaliadau crefyddol y deiliaid, ac y dylai pob deiliad cyhyd ag y byddo yn talu'r trethi ac yn ufuddhau i'r deddfau sydd mewn grym, gael cystal chwareu teg ac unrhyw ddeiliad arall? Onid ydym yn honi nad oes gan lywodraethwyr gwladol unrhyw hawl i ddyfarnu pa beth sydd yn *orthodox*, a gosod cosb ar y sawl a gredo yn wahanol? Ie, mwy na hyny—canys dadleuwn nid yn unig dros oddefiad, ond dros gydraddoldeb llwyr a hollol. Onid ydym, ar fanlawr Cymdeithas Rhyddhad Crefydd, yn honi na ddylai neb gael ei osod mewn unrhyw anfantais wladol yn herwydd ei ddaliadau

duwinyddol? Yn Mhwllheli a Ffestiniog, i gryn raddau, y Cynghorau Trefol ydyw'r "wladwriaeth." Yn ei meddiant hwy y mae'r gallu gwladol. Felly onid yw yn bur eglur fod penderfyniadau Cynghorau Pwllheli a Ffestiniog yn ymwrthodiad âg egwyddorion sylfaenol Protestaniaeth a Rhyddfrydiaeth? Dro yn ol, bu darlithiwr Pabyddol ar daith drwy Wynedd, a chafodd bob chwareu teg. Ni wrthodwyd neuadd iddo mewn un man, hyd y gwyddom. Paham na chai Dr. Griffith hefyd chwareu teg i oleuo'r wlad, os oes goleuni ganddo? Ystyriai Ymneillduwyr Arfon am flynyddau lawer fod gŵr o'r un enwad a Dr. Griffith—sef Mr. William Rathbone—yn ddigon da i'w cynrychioli hwy yn y Senedd; ac y mae pobl Ffestiniog, a llawer ardal arall yn Nghymru, wedi darganfod fod ei arian yn eithaf cymeradwy at ddybenion crefyddol, elusenol, ac addysgol. Gwarth i Gymru ydyw gwadu yr hen arwyddair ardderchog—"Rhydd i bawb ei farn, ac i bob barn ei llafar."—*O'r "Herald Cymraeg."*

SUL Y BLODAU.

HENRY Ward Beecher ddywedodd, "Flowers are the sweetest things God ever made, and forgot to put a soul into." Gwir iawn, mae y blodau yn felus. Beth all fod yn felusach? Gofyner i'r wenynen. Ac y mae mwy o rywbeth ynddynt nag a fedrai llygad Peter Bell ei ganfod:—

> "Briallu'n tyfu'n ymyl dw'r,
> Briallu melyn oedd i'r gŵr,
> Ac nid oedd ddim yn rhagor!"

Edrycher yn ngwyneb y blodeuyn bychan, tlws, prydferth, y mae perffeithrwydd meddwl y Bôd Mawr yn gwenu ynddo. Ceir ynddo ddirgelwch na fedr y meidrol ei ddadansoddi, a dyfnder na fedr ei blymio. "Flower in the crannied wall," &c., meddai Tennyson.

> "Ti, flod'yn, yn agen y graig draw,
> Cymeraf di i fyny yn fy llaw,
> A phe gallwn i ond esbonio
> Dy liw, dy lun, a'r oll wyt dy hun,
> Fe fyddai yn gam at wybod am
> Beth ydyw Duw a dyn,
> 'Rwy'n coelio."

Y mae math o unoliaeth yn perthyn i'r holl fydysawd, ac nid ydym ni eto wedi cwbl feistroli yr abiec. Cymerwn yn ein llaw ryw edefyn bychan o wisg anfeidrol yr Anweledig—gwisg sydd yn cael ei thragywyddol wau, heb fyth ei gorphen—a dygir ni wyneb yn wyneb â'r Anfeidrol Mawr Ei Hun!

Perthyn i'r blodeuyn swyn lliw a swyn arogl, ac y mae'r ddau yn cyflawni swyddogaeth bwysig—i hud-ddenu'r gwenyn a phryfaid ereill at ystorfa'r mêl. Tra mae'r pryf bychan felly yn sicrhau bwyd i'w 'storio erbyn angenion gauaf (yn gallach nag aml i ddyn), y maent ar yr un pryd yn trosglwyddo o'r naill flodeuyn y llwch bychan (*pollen*) angenrheidiol i ffrwythloni'r blodeuyn arall. Heb y mêl ni allai'r wenynen fyw, ac heb y wenynen ni wnai'r blodeuyn ffrwytho ac amlhau. O ryfedd! "Ni fedraf fi edrych ar y wenynen yn adeiladu ei diliau mêl," ebe athronydd doeth o'r ganrif o'r blaen, "na fyddaf yn wastad yn meddwl fod bys y Bôd Mawr yn cyfeirio'r symudiadau." Ymddengys y byd llysieuaidd a'r byd anifeilaidd yn cyd-ddibynu y naill ar y llall.

Yr oedd Beecher yn caru'r blodau. Dywedir mai efe oedd y cyntaf i fynu blodau i addurno'r Allor neu'r Bwrdd Cymun â hwynt, a mynai hwynt bob Sul drwy'r flwyddyn. Gymaint yn fwy siriol a mwy naturiol yw'r blodau ar y Bwrdd Cymun na'r canwyllau a ddefnyddir liw dydd gan yr offeiriad! I Beecher yr oeddynt yn bregeth barhaus, yn bregeth bersonol, ac yn awgrymu mynych eglurebau gwerthfawr a gyhoeddid ganddo o bryd i bryd er budd y gwrandawyr. Mor hardd, mor brydferth, mor swynol, mor dawel, mor ddystaw yw pregeth y blodau! "Ni wisgwyd Solomon yn ei holl ogoniant fel un o'r blodau hyn!" Perthyn y blodau i Baradwys Duw, a gogoniant Solomon i *hothouse* celfyddyd.

Gwir fod y blodau yn awgrymu breuolder einioes—"gwywa y gwelltyn, syrth y blodeuyn"—ond awgrymant hefyd obaith anfarwoldeb, sydd, fel Gair Duw, yn sefyll byth!

Y mae Sul arbenig y Blodau, *Palm Sunday*, Sul y Palmwydd, yn ein cario ni yn ol mewn meddwl yn agos i ddwy fil o flynyddoedd, at yr adeg drist-orfoleddus pan oedd y Gwaredwr yn disgyn ar hyd un o lechweddau yr Olewydd, yn nghyfeiriad y Ddinas Sanctaidd, gyda thyrfa fawr yn taenu eu dillad ar y ffordd, ac yn tori cangau o'r *gwydd* (Ioan yn unig ddywed palmwydd), rhai o'r blaen a rhai ar ol, yn llefain ac yn dywedyd, "Hosanna i Fab Dafydd, &c."*

Yn mhen blynyddoedd yn ddiweddarach daeth Sul y Blodau i gael ei gadw yn wyl goffa am y dydd pwysig a chynhyrfus hwnw

---

* Yr oedd y Salmydd yn gyfarwydd ddigon â'r palmwydd, a gwelai arwyddlun priodol o'r cyfiawn ynddynt. Desgrifia hwynt fel wedi eu planu yn Nhŷ yr Arglwydd, yn blodeuo yn nghynteddoedd ein Duw, yn dwyn ffrwyth yn eu henaint, yn dirfion ac yn iraidd.

yn hanes yr Athraw, a daeth yn arferiad i fyned i'r Eglwys ar wedd pererinion, yn cario cangau o'r palmwydd yn eu dwylaw; ac yn fynych gellid eu gweled ar ddydd angladd yn gorchuddio yr elor â'r dail, fel arwyddlun o'u buddugoliaeth ar angeu a'r bedd, ac o'r dyrfa fawr, yr hon ni all neb ei rhifo, yn sefyll ger bron yr orseddfainc, â phalmwydd yn eu dwlaw.

Rhaid addef fod i mi rywbeth sydd yn swynol ac yn gysegredig, rhywbeth yn cyffwrdd â man tyner yn y galon, yn yr hen ddefodau, pan gedwir hwy o fewn terfynau rheswm a synwyr cyffredin; ond yr wyf yn ofni na wneir hyny heddyw. Y mae'r ffasiwn y cedwir Sul y Blodau heddyw yn warth ar ein dynoliaeth. Drwy'r wythnos flaenorol gellir gweled lluoedd yn cyrchu i'r claddfeydd cyhoeddus, yn llwythog o flodau heirdd a phersawrus yr olwg, a drudfawr yn ddiamheu. Addurnir y beddau â'r rhai hyn, ac ar y Sul canlynol ceir y mynwentydd yn fwy tebyg i ffair na dim arall y gwn i am dano. Mae y rhialtwch, yr ynfydrwydd, a'r ffolineb gymaint, fel y mae yn warth i ddynoliaeth, a synir gan lawer ei fod yn cael ei oddef mewn lle o'r fath Mewn rhai manau y mae *pressure* wedi ei ddwyn ar yr awdurdodau i gau y mynwentydd ar y Sul.

Eir i'r fynwent, mewn ymddangosiad, i barchu y meirw, ond amlwg fod yna lawer nad oes ganddynt rith o deimlad cysegredig. Lladratânt yn hollol ddigywilydd oddiar feddau ereill i addurno eu beddau eu hunain. Mor wahanol i deimladau Hervey: "Difrifoldeb a sancteiddrwydd a weddant i'r lle hwn. Na sangwyf ei gynteddoedd un amser yn ysgafn ac anmharchus, eithr gydag arswyd dwfn ac ofn duwiol." Neu sylwer ato ar eiriau Parnell (cyfieithiad D. Williams):—

"Tramwy'r ydwyf gyda phrudd-der heibio i'r carneddau'n syn;
Gan fyfyrio, wrth ysgafndroedio, ar y meirw hybarch hyn;
Amser fu, pan oe'nt fel finau, 'n byw ac ymdaith yn y byd,
Amser ddaw, pan fyddaf finau, fel hwynt-hwy yn gelain fud."

Ond hai, pob parch dyladwy i *sentiment!* Ond cofier nad yw ein hanwyliaid ddim yma. Cuddiwyd o'r golwg y *shell* yn unig. Dychwelwyd y pridd i'r pridd, ond aeth yr enaid at Dduw, yr Hwn a'i rho'es. Ebe Shoreau, "I take no interest in cemeteries, I have no friends there." "Nid wy'n teimlo dim dyddordeb mewn mynwentydd, nid oes genyf fi ddim cyfeillion yno," meddai. I'r amlafrif ohonom, fodd bynag, y mae yna ddyddordeb yn mhobpeth a edy ein hanwyliaid ar eu hol. Teimla'r fam barch hyd yn nod i esgidiau ei bychan sydd yn awr yn angel yn y nef; a'r pwnc mawr yw cadw y parch hwn o fewn terfynau rhesymol. Dylai yr eglwys neu'r capel fod yn alluog i'n dwyn i gyffyrddiad agosach â'n hanwyliaid ymadawedig na'r fynwent. Nid yw corff y dyn ddim, a'r corff yn unig sydd yn myned i'r bedd. Yr enaid yw y dyn, yr enaid sydd yn parhau unoliaeth ein person drwy ystod ein byw; a phan ddaw marw, fe ollyngir y corff i'r

ddaear, ac fe ddianga'r enaid at Dduw. Diflana o'n golwg mewn corff newydd. Nid y corff a fydd sydd yn myned i'r ddaear. Rhydd Duw i bob enaid ei gorff ei hun, fel y myno Efe, gan wisgo y llygradwy mewn anllygedigaeth, a'r marwol mewn anfarwoldeb. Dylem wahaniaethu rhwng y tŷ a'r deiliad sydd yn byw yn y tŷ. Pan fyddo ein daearol dŷ o'r babell hon yn ymddatod ac yn dychwelyd i'r daear, nid y dyn fydd hwnw; ni a gawn fod yn aros i ni adeilad newydd gan Dduw, a'r enaid, yr hwn yw y dyn gwirioneddol, a esgyn o fagwyr yr hen adeilad i fyny i'r adeilad newydd hwnw, sef i'r tŷ, nid o waith llaw, tragywyddol yn y nefoedd.

Gyfeillion, parchwch eich meirw; ond byddwch yn rhesymol!

R. J. J.

JOHN ISHMAEL JONES.

XII.

Y MADAWODD Mr. Jones â thŷ Mrs. Grey, ac aeth i'w fyfyrgell wrtho ei hunan. Y mae brwydrau mawr bywyd yn cael eu hymladd yn unig, heb neb i roddi gair o gefnogaeth yn y frwydr. Cyn fod dynion yn ymddangos yn nghreisis mawr y byd, i hyfforddi y genedl, i arwain ereill i fuddugoliaeth, y maent yn gyntaf wedi cyfarfod, ymladd, a gorchfygu eu hunain ar faes brwydr anweledig yr enaid. Nid oes yno ddim bloeddio, na swn magnelau, na chwyfio'r faner yn nghanol y mwg; dim ond eri egwan gweddi, neu ochenaid drom yn cael ei thynu, ag sydd fel y mwg a'r tân sydd yn cael ei chwythu allan o gopa y mynydd tanllyd, y mae yn dyweyd am y cynhwrf uffernol ag sydd yn myned yn y blaen yn nghrombil y mynydd. Maes brwydr Armagedon ydyw, lle mae y lluoedd o blaid daioni ac o blaid drygioni mewn ymdrech farwol â'u gilydd. Y mae yr hwn sydd wedi enill yma yn ddyogel. Fan yma yr ymladdodd Moses a Iesu, Mahomed a Luther, Wesley a Channing, ac a godasant iddynt eu hunain gofgolofnau buddugoliaeth. Fan yma y mae pob enaid gwirioneddol yn cael ei brofi. Y frwydr yma ydyw gorsedd barn yr enaid, yn ol ei wir ystyr yn y Testament Newydd. Y mae yn brawf pob dyn trwy yr hwn y gwna basio, tra oddiarno "y mae yr orseddfainc wedi ei gosod, a'r llyfrau wedi eu hagor."

I'r fan hon yr oedd Mr. Jones wedi dyfod o'r diwedd. Yr oedd wedi cael cipdrem o'r lluoedd yn ymgasglu o'r blaen. Yr oedd yn barod wedi bod ar ymyl y frwydr ragor nag unwaith,

ond yn cilio yn ol bob tro, ac yn gohirio y penderfyniad. Ond yn awr nis gallai, ac nid oedd yn awyddus am ddianc. Yr oedd ei gydwybod wedi chwythu y rhyfelgorn, ac yntau ei hunan yn barod i wynebu y canlyniadau. Teimlai ei fod yn ymladd am wobr ei enaid ei hun. Yr oedd ei ddynoliaeth i gael ei enill neu ei golli. Y mae yr ymladdwyr i'w cael yn mhob calon ddynol, fywiol, ac ernest. Cynydd yn ymladd yn erbyn diogi; rhyddid yn brwydro yn erbyn traddodiad a chaethiwed i eiriau a meddyliau pobl ereill; ffydd Abraham "a aeth allan nas gwyddai i b'le" —heb wybod dim ond fod Duw wedi galw—yn cael ei chyfarfod gan ofn, ac yn amheu a wnaeth Duw erioed arwain i wlad newydd: ffafr y byd hwn yn ceisio mogi yr ysbryd o ffyddlondeb i ddyledswydd ar draul unrhyw golled; cariad angerddol yn ceisio gwneyd dyledswydd i gydffurfio i'w elw melus ei hunan; tra yr oedd parch ac edmygedd i'r gorphenol yn ceisio suo ei ymchwiliadau i gysgu, ac yn ei ddangos fel yn fradwr i'r hen eiriau ag sydd yn hawlio gydag awdurdod i gynrychioli Duw.

Y rhai yma oedd y lluoedd ymgasgledig, a hawdd y gallwn gynyg iddo ein cydymdeimlad; oherwydd yr oedd yn frwydr Gethsemane. Byddai yn well ganddo braidd i farw na dechreu ar y frwydr hon. Ac er iddo ymdrechu, a dyfod allan yn orchfygwr, eto teimlai fod yn rhaid i hyny fod ar draul colli rhywbeth mwy anwyl na'i fywyd ei hun. Felly yr oedd yn chwerwder marwolaeth iddo o'r ddwy ochr.

Eisteddodd i lawr wrth ei ddesc, a'i ddwylaw yn dal i fyny ei ben, ac a wrandawodd ar y cri a ddaethai i fyny a waelodion ei enaid ei hun.

"O Dduw!" llefai, "os oes yna Dduw; paham y mae yn rhaid i un amheu a dyoddef wrth chwilio am danat a ffordd gwirionedd?"

Yna yr eisteddai, a meddyliai am lwybr cynydd dynol, sut yr oedd wedi cael ei wlychu gan ddagrau, a'i nodi gan waed y gwirionedd.

"Y mae wedi bod yn un ferthyrdod hir," dywedai, "oddiar yr amser pryd y preswyliai y bobl yn yr ogofeydd hyd yn awr. Dim ond y rhai hyny ag sydd wedi ymfoddloni bod yn ddiddefnydd, i fyw bywydau fel yr anifeiliaid, sydd wedi bod yn gysurus. Mae y rhai sydd yn meddwl—y darganfyddwyr, y proffwydi, y rhai ag sydd wedi ceisio llesoli dynoliaeth—wedi dyoddef erledigaeth, a gwawd, a marwolaeth."

Fan yma neidiodd ar ei draed, a cherddodd oddiamgylch yr ystafell; ac yn ei amheuaeth ofnadwy, llefodd allan—

"A ydyw yn bosibl, wedi'r cyfan, nad yw y Duw tragywyddol ond rhyw deyrn gorthrymus, yn ddigofus wrth hawddfyd dyn, yn poeni y rhai hyny ydynt am wneyd daioni, ac arwain dynion i feddwl uwch ac i lwybrau gwell?"

"Ond y mae hyn yn gabledd," dywedai. "Oni wna Barnwr yr holl ddaear farn? Duw doeth nid all, Duw da ni wna un cam. Oni bai fod Duw yn gyfiawn, fyddai dim teimlad o iawnder i'w

gael. Ond eto y pris sydd i dalu am dano! Ai ni ellid arbed y boen hon?"

Yna y cymerodd ei Destament yn ei law, ac a ddarllenodd am Iesu, "er Ei fod yn Fab, Efe a berffeithiwyd drwy y pethau a ddyoddefodd."

"Ond nid yw hyn yn ei wneyd yn Iawn. Nid yw ond dangos fod yr eneidiau mwyaf yn agored i'r un ddeddf anochel-adwy." Yna trodd i "In Memoriam" Arglwydd Tennyson, a darllenodd:—

"I falter where I firmly trod,
And falling with my weight of cares,
Upon the world's great altar-stairs,
That slope through darkness up to God.

"I stretch lone hands of faith, and grope,
And gather dust and chaff, and call
To what I feel is Lord of all,
And faintly trust the larger hope."

"Ar ol y cwbl," dywedai, "beth bynag sydd dywyll, nid oes un amheuaeth, os ydwyf i fod yn ddyn, y mae yn rhaid i mi wrando ac ufuddhau i fy nghydwybod, a pheidio diffygio pan mae dyledswydd yn galw. Y rhai sydd yn marw dros gyfiawnder yw y gorchfygwyr, er iddynt fyned lawr i'r llwch a nos fythol; a'r rhai sydd yn byw, ac yn rhoddi eu dynoliaeth am y fraint, ydynt yn cael eu claddu am byth o dan falurion eu heneidiau eu hunain."

Hyd y fan yma o'r frwydr, yr oedd wedi enill. Fe fydd ef yn ffyddlon iddo ei hun ar unrhyw bris.

"Ond nid wyf yn ffyddlon i mi fy hunan," dywedai, "cyhyd ag y byddaf yn dal y sefyllfa yma, Y mae yn rhaid i mi adael y lle hwn. Yr wyf yn myned ac yn sefyll i fyny yn fy mhwlpud, ac yn teimlo fy mod yn actio anwiredd. Credir fy mod yn Iawn-ffyddol; mae'r ffaith fy mod yn sefyll yno yn cadarnhau hyny. Nis gallaf ei oddef! Mi äf bob yn dipyn fel y gwna fy enaid gydsynio i fod yn dwyllodrus, ac yna pwy werth fyddaf i neb? Gan fod pob peth mor ansicr, yr wyf bron dymuno y byddai yn dda genyf pe bawn heb feddwl na myfyrio erioed. Ond yr wyf wedi meddwl ac wedi myfyrio, ac mae fy nhynged arnaf."

Ac yna daeth yr awgrymiad profedigaethus iddo—

"Ond mae y rhan fwyaf o'r bobl yn hoff o'r athrawiaeth ydych yn bregethu, a gallwch eu moldio wrth eich hewyllys. Yr ychydig a wrthwyneba, gallwch eu gyru ymaith, a chewch yr holl faes i chwi eich hun."

Yr oedd yn feddwl melus am ychydig, a bu yn mron rhoddi fyny. Yna yr ofnodd wrth feddwl fod ynddo ef ei hunan allu i'w fradychu; a phe buasai ganddo ddychymyg ychydig yn fwy

bywiog, buasai wedi taflu ei botel inc, fel Luther, at y diafol oedd yn chwareu âg ef."

"Wrth gwrs, mi allwn wneyd hyn, os y gallwn chwareu yn lladradaidd fel yma. Mi wn eu bod yn hoff o fy athrawiaeth; ond ni fyddent pe yn gwybod ei henw. Pan y gwnaf arwain eglwysi i wirioneddau newyddion, mi wnaf hyny gyda lliwiau agored, ac nid gwisgoedd ydynt wedi eu lladrata."

Pan yr oedd wedi cerdded ei fyfyrgell, a meddwl, a darllen, a *strugglo*, yr oedd yn dechreu nosi. Yna yr aeth i'w ffenestr, ac edrychodd tua'r dwyrain, a gwelodd fod y lleuad yn codi. Taflai bont o belydrau arianaidd dros yr afon, mor deg a'r heolydd ar hyd y rhai y gwna yr angylion gerdded. Ac yna trodd ei lygaid ac edrychodd i gyfeiriad ffenestr Madge; curai ei galon yn wylit wrth feddwl am ei harddwch swynol a'i gariad mawr ef.

"O Madge!" llefai allan, "ychydig wyddoch am y chwerwder sydd yn dyfod i fy nghalon pan yr wyf yn meddwl am eich cariad melus. Ond nis gallaf oddef hyn yn hŵy, y mae yn rhaid i mi fyned allan."

Cymerodd ei het, a chychwynodd am y bryniau. Cerddodd awr gyfan, heb un dyben arall ond gwneyd yr hyn oedd yn anmhosibl—myned i golli arno ei hunan. O'r diwedd, cafodd ei dynu yn naturiol gan adgof am y noson hono lle y cyfaddefodd Madge drwy ei dystawrwydd ei chariad tuag ato.

Eisteddodd i lawr, ac edrychodd oddiamgylch iddo. Gwelai y bryniau cyfagos, y mynyddoedd yn y pellder, yr afon lydan a thawel yn ymddolenu drwy y dyffryn, a braidd y cenfigenai wrth eu tangnefedd a'u tawelwch bythol. Meddyliai pe bai yn cael ei symud i un o'r ser yn y nefoedd, efallai y cawsai yntau dawelwch. "Ond na," meddai wrtho ei hun, "y mae yn rhaid i bob un i ymladd ei frwydr drosto ei hunan, a chael nefoedd neu uffern yn y man lle mae yn preswylio."

Ond nid arosai ei feddwl yn hir wrth ddim heb fyned yn ol at ei gariad; a myfyriai am dani yn ddystaw—

"Byddai yn rhwydd ddigon i mi i ymladd y frwydr hon oni bai fod genych chwi, Madge, gysylltiad agos â hi. Nid yw yn waith rhwydd i un droi ei gefn ar ei gyfeillion a'i hen gymdeithion—i feddwl fod y rhai sydd yn ein caru yn credu ein bod wedi rhoddi Duw i fyny am byth, a'n bod wedi syrthio i ddwylaw yr ysbryd drwg. Ond mi allwn ddyoddef hyn oll. Ond i roddi poen i'ch calon, efallai—eich *colli* chwi! O Madge! nis gallaf ddygymod â hyn!"

Oherwydd erbyn hyn yr oedd wedi deall ei natur, yn gwybod am ei dygiad i fyny mor dda, fel yr ofnai y gwnai ei theimlad o ddyledswydd—yr hwn nid oedd yn llai penderfynol na'i eiddo ei hunan—hyd yn nod aberthu ei chariad, er y gwnai dywyllu byth ei bywyd, yn hytrach nag ymostwng i'r hyn ag oedd hi wedi cael ei dysgu i gashau ac ofni fel gelyn gwaethaf Duw. A'r dewrder prydferth hwn yn ei chymeriad oedd yn ei wneyd i'w hedmygu. Fe fyddai hi yn ferthyr, yn canu ac yn molianu yn y fflamau, yn

yr amser pan oedd y fath bethau yn dygwydd. A gwelai Mr. Jones, gydag edmygedd yn gymysgedig âg ofn, y gwnai ei golygiadau yru ei nodweddion mwyaf dyrchafedig yn erbyn y teimlad newydd yma o ddyledswydd oedd wedi dihuno yn ei enaid ei hun.

"Yn hyn," dywedai, "y mae *tragedy* dyledswydd yn gynwysedig. Beth ddaw o galonau dynol, tlawd ac egwan, rhwng y fath alluoedd, nas gall y naill na'r llall roddi ffordd? Ac eto, O Dduw! y mae yn rhaid i mi fod yn ffyddlon, er y golyga fy melldithio er mwyn Dy ogoniant. Yr wyf yn sicr o'i cholli os y byddaf yn driw; ac eto os na fyddaf, nid wyf yn addas i'w henill."

Efe a gododd oddiar y llawr eto, ond nis gallai feddwl am fyned yn ol i'r tŷ. Efe a grwydrodd, ac a feddyliodd, nes iddo gyrhaedd copa Bryn-yr-ŵyn, uwchben yr afon dawel ag oedd yn dal y ser ar ei mynwes. Edrychodd i gyfeiriad y bwthyn, a gwelodd Dai Sosin yn eistedd tuallan i'r drws, ac yn edrych i fyny i'r wybren, fel pe bai wedi d'od allan i 'mofyn ychydig awyr ffres cyn ymneillduo i'w wely.

"Y mae yn edrych yn dawel i fyny yna," meddai Mr. Jones; "mi garwn pe bai y byd mor ddigyffro a'r nefoedd uwchben."

"Be sy'n bod, Mr. Jones! Dyw pobol ddim yn gyffredin yn cered lan yma pan mae'n bryd iddi nhw fod yn y gwely?"

"Wel, yr wyf yn anesmwyth, ac nis gallaf gysgu."

"Mewn cariad, falle wir. Fe fuodd gyda fine gariad unwaith; ond (a sychodd ei lygaid â'i law arw) buodd farw, ac ni leices i neb wedi hyny. Ond pan own i yn dechreu caru, cyn i'r tewyllwch ddod, allwn i ddim aros yn y tŷ ar noswithe fel hyn; yr own yn cered yn *round*, a meddwl gyment yn rhagor o oloini odd yn i llyged hi nag odd yn y sers i gyd."

Erbyn hyn yr oedd Dai Sosin a Mr. Jones yn gyfeillion mynwesol. Yr oedd yr hen wr wedi cael gwel'd gwir ddynoliaeth yn y gweinidog newydd, a golwg resymol ar grefydd; ac yr oedd hyn wedi enill ei serch, ac yn awr gwnelai unrhyw beth er ei fwyn."

"Yr wyf yn meddwl y bydd yn rhaid i mi adael y lle hwn."

"P'am; yn mis Mehefin doethoch chi yma. Os dim blwyddyn yto. Beth ych chi yn feddwl?"

"Yr wyf yn meddwl nas gallaf aros, a bod yn ddyn gonest."

"Yr own yn mynd i weyd mai dim ond chi odd yr unig ddyn gonest yma; ddylech chi ddim sharad y fath beth."

"Ond beth os nad allaf fod yn onest, os yr arosaf?"

"Dw i ddim yn gwbod at beth ych chi yn dreifo."

"Wel, yr wyf yn dreifo at hyn. Y mae yr eglwys yn *orthodox*. Yr ydych chwi yn gwybod nad ydwyf fi felly, ac nid wyf yn fy lle iawn. A ydyw yn blaen yn awr?"

"Ody, Mr. Jones, y mae yn rhy blaen o lawer. Yr ych chi yn gwbod shwt w i wedi'ch lico chwi; shwt y gnaethoch dafln

goloini ar bethe towyll, ag odd yn ym hoeni i. Ond allwch chi ddim i hwmladd hi mas ac aros?"

"Ddylwn i ddim aros mewn eglwys Iawnffyddol os nad wyf yn credu ynddi."

"Wel, Mr. Jones, falle na ddaw hi ddim i hyny 'nawr. Falle bydd digon o *sense* ynddy nhw i wel'd ych bod chi yn *right*. Ond gynta beth ddaw, fe fyddwch chi yn ddyn." Yna gafaelodd yn galed yn ei law, ac ychwanegodd, "Duw'ch bendithio! Duw'ch bendithio! Ma'r byd yn fowr, ac ma digon rwle neith rondo arno chi."

Yr oedd yr ymdrech drosodd; ac yr oedd yr angel wedi ei ysgrifenu i lawr fod enaid arall wedi aros o flaen yr orseddfainc dragywyddol, ac a aeth yn mhlith y rhai hyny sydd ar ddeheulaw y Barnwr.

Fel y cerddai Mr. Jones adref, yr oedd ei galon mor dawel a'r ser uwchben, er fod yna dristwch, fel cord lleddf mewn cerddoriaeth, ag a wnaethai ei hunan yn glywadwy yn nghân y fuddugoliaeth ag oedd yn cael ei chanu yn ei enaid.

(*Fw barhau.*)

Q. T.

HANES Y "REHEARSAL" YN CEREDIGION.

YR ydym unwaith yn ychwaneg wedi dyfod yn mlaen a gwynebu parotoadau ar gyfer ein Cymanfa Ganu flynyddol, yr hon bellach sydd yn sefydliad teilwng o'n sylw, ac wedi gwneyd gwaith da yn ein capelau er y cychwyniad.

Cynaliwyd y *Rehearsal* gyntaf o'r Dosbarth Isaf, pa un gynwysa eglwysi Llandysul, Pantdefaid, Bwlch, a'r Llwyn, yn Hen Gapel y Llwyn, boreu Sul, Mawrth 13eg; ond er fod yr hin, a phobpeth arall yn ddymunol, drwg iawn genym orfod dyweyd nad oedd y cynulliad i fyny i'r hyn y dylasai fod, ac i'r hyn y mae Mr. Eiddil Jones wedi arfer gael yma oddiar pan y mae gyntaf wedi dyfod i'n plith fel arweinydd; ond dichon fod yr anwydwst, yr hwn sydd yn drwm ar lawer teulu, yn beth achos o hyn; a chan fod bryd Mr. Jones bob amser ar gael datganiadau mor orphenol ag sydd bosibl, gobeithiaf y bydd i'r cychwyniad yma greu awydd i ddyfod i fyny â dysgwyliadau yr arweinydd.

Dechreuwyd y cyfarfod drwy ddarllen a gweddïo gan y Parch. Arthur Thomas, a chanwyd un emyn; yna aeth Mr. Jones at ei waith, a gwnaeth sylwadau pwrpasol iawn cyn cychwyn ar y canu. Pwysai yn drwm ar yr arweinyddion lleol i ymgymeryd at chwaren offerynau cerddorol.

Canwyd y tonau canlynol allan o'r rhaglen :—"Silchester," "Henllys," "Aeron," "New Court," "Rutherford," "Cynhauaf," "Ymgysegriad," "Tangnefedd," "Troyte," "Mynydd Seion," a chafwyd canu lled dda ar y cyfan, er fod y lleisiau yn anystwyth iawn. Yna cafwyd ychydig sylwadau gan Cadben Davies, Rhydowenfach, ar yr angenrheidrwydd o gael y *programme* wedi ei droi i'r Hen Nodiant. Ac ar ol ychydig siarad, cynygiwyd gan y Parch. Arthur Thomas, ac eiliwyd gan Mr. Thomas Thomas, Green Grove, ein bod yn awdurdodi yr Ysgrifenydd i'w gael wedi ei wneyd, a hyny yn y modd mwyaf rhad posibl. Canwyd yr anthem, "Yr Arglwydd yw fy Mugail" (W. T. Samuel), yn lled dda, a chymeryd mai y darlleniad cyntaf o'r braidd ydoedd.

Da oedd genym, hefyd, weled yn bresenol y Parch. Thomas Thomas, Y.H., Green Park, er nad yw yn gerddor, ond mae presenoldeb dynion o fath Mr. Thomas yn rhoddi cefnogaeth i'r ieuanc i fod yn bresenol. Gobeithio y bydd i'r *Rehearsal* hon fod yn symbyliad i fwy o lafur erbyn yr un nesaf, gan ei bod yn amlwg nad oedd llafur digonol wedi bod yn y gwahanol gapeli gogyfer â hon, fel y gofidiai yr arweinydd orfod dyweyd fod y canu flwyddyn yn ol yn llawer gwell na'r tro hwn. Gobeithiwn yn fawr y cofir am, ac y gweithredir yn ol, yr awgrymiadau gafwyd.

Terfynwyd drwy weddi gan y Parch. Arthur Thomas, Llandysul.

YMGEISYDD.

[Daeth dau adroddiad o'r *Rehearsal* uchod i law, a chredwn mai eiddo "Ymgeisydd" yw y llawnaf a'r goreu.—T. A. T.]

DR. WILLIAM GRIFFITHS.

EI ANTURIAETH BERYGLUS I'R GOGLEDD.

DYN calonog yw Dr. Griffiths, gweinidog yr Undodiaid yn Mhontypridd, ac yn meddu gwroldeb ei argyhoeddiadau, neu ni wnai anturio ar y gorchwyl y mae wedi gymeryd mewn llaw, sef pregethu efengyl Undodiaeth i frodorion sir Gaernarfon. Y mae pobl Pwllheli, Ffestiniog, a Thalysarn, eisoes wedi cymeryd i fyny arfau i wrthwynebu y Doctor, a chawn fod y Cynghorau Dinesig mewn rhagor nag un man wedi gwrthod iddo gael benthyg eu neuaddau cyhoeddus. Y mae Iawngredoaeth, o'r *first water*, wedi gwneuthur sir Gaernarfon bob amser yn amddiffynfa iddi, ac edrychir ar Undodiaeth yno fel credo eneidiau colledig. Nid yw Gogledd Cymru, o gornel i gornel, yn

cynwys gymaint ag un capel Undodaidd, er y dichon fod yno unigolion yn ddirgel goleddu y ffydd hono. Un felly oedd Mr. William Rathbone, yr hwn am flynyddau a fu yn cynrychioli Methodistiaid ac Annibynwyr sir Gaernarfon yn y Senedd. Cyfranodd Mr. Rathbone yn helaeth, er ei fod yn Undodwr cadarn, at yr enwadau Iawngrediniol, ac efe oedd bywyd ac enaid Coleg y Gogledd yn ei gychwyniad. Dylai yr adgof am ei roddion tywysogaidd, a'i fywyd ardderchog, leddfu ychydig ar sêl ddall etholedigion Pwllheli, Ffestiniog, a Thalysarn. Ni all Dr. Griffiths wneuthur dim niwed iddynt; mae yn bosibl iddo wneuthur peth da. O leiaf, y mae angen i rywun eu harwain allan o'r rhodfa dywyll, gul, y mae Sectariaeth wedi eu harwain iddi. Yn wir, nid ydym ni yn deall safle Ymneillduwyr Iawngrediniol Cymru pan y gwaeddant, "Rhyddid crefyddol," ac y gwadant ef mewn ymarferiad, gan osod eu hunain i fyny mewn cynifer o Chwil-lysoedd ag sydd o gapelau. Dymunwn i Dr. Griffiths *bon voyage*—rwydd hynt—ar ei ryfelgyrch beryglus. Nid oedd gan Dr. Nansen ar ei daith i'r Pegwn Gogleddol ddim cymaint o beryglon ag sydd o'i flaen ef. Dysgwyliwn i fynyddoedd Caernarfon daflu eu holl greigiau yn ei erbyn.—*O'r "Western Mail," Mawrth* 11*eg*, 1898.

HWCH O WRAIG.

SALW iawn yw ei thŷ, sylwer,—a'i ddull
Sydd hollol ansyber;
Gwrthun yw ei lun, aflêr,
Ac aflendid, gyflawnder.

Blaenwaun. D. JENKINS.

MANION AC HANESION.

"PENILLION ER COF AM D. DAVIES, CWMANN."—Ymddengys erbyn hyn fod yna gamsyniad trwy anffawd wedi dygwydd mewn perthynas âg awdwr y "Penillion er Cof am D. Davies, Cwmann," pa rai a ymddangosodd yn y rhifyn o'r YMOFYNYDD am Mawrth. Cynrychiolydd Morgan Jones oedd yn bresenol, a chan fod yna ddau fardd wedi danfon ffugenwau bron yr un fath, sef "Hen Gyfaill sydd yn ei Gofio" a "Cyfaill Iddo," gwnaeth y cynrychiolydd gamsyniad. Credaf y bydd yn foddlonrwydd i luaws trwy gywiro y camsyniad trwy gyfrwng yr YMOFYNYDD. Awdwr y penillion a ymddangosodd yn y rhifyn a nodwyd yw T. H. Thomas, Manchester House, Llanybyther, ac nid Morgan Jones, diweddar Castle Green.—*D. Jenkins, Ysg.*

Mrs. R. J. Jones.—Yr ydys wedi dychwelyd Mrs. Jones i fod yn aelod o Fwrdd y Gwarcheidwaid, Merthyr. Etholwyd hi a boneddiges arall yn ddiwrthwynebiad.

Arholiad Blynyddol yr Ysgol Sul. —Gan fod dyddiad yr Arholiad uchod yn dygwydd ar yr un dydd a'n Cyfarfodydd Chwarterol, o ganlyniad fe'i gobirir am wythnos, a chymer le ar yr 20fed o Ebrill.—*T. A. T., Ysg.*

Y Parch. J. Fisher Jones.—Da genym weled oddiwrth yr adroddiadau i law fod ein cyfaill, Mr. Jones, yn cael derbyniad gwresog iawn gan y bobl yn Cheltenham. Mae eisoes wedi enill iddo ei hun enw da fel pregethwr, cerddor, a boneddwr.

Llwyddiant.—Da iawn genym allu cofnodi y ffaith fod Miss Elizabeth Evans, Tynant, merch Mr. Thomas Evans, Tynant, un o bileri yr achos Undodaidd yn Ciliau, wedi cael ei phenodi yn athrawes ar y merched yn Ysgol Ganolraddol Aberaeron, allan o'r chwech oedd yn ymgeisio am y swydd. Nid yw Miss Evans ond 22 oed yn bresenol; ac am y ddwy flynedd a haner diweddaf, mae wedi bod yn aelod o Goleg y Brifysgol, Aberystwyth; ac yn ystod yr amser yma, pasiodd yn llwyddianus arholiad y *Matriculation* yn Mhrifysgol Cymru, ac hefyd yr arholiad gofynol am y gradd o C.M. Eiddunwn i Miss Evans bob llwyddiant yn y dyfodol.

Yr Undodiaid mewn Bywyd Cyhoeddus.—Yn yr etholiadau ydynt wedi cymeryd lle yn ddiweddar, mae ein brodyr yn y ffydd wedi bod yn dra llwyddianus. Cyn belled ag y gallwn gofio yn awr, dyma gyfres o enwau y sawl a etholwyd:—Yn Gynghorwyr Sirol—Mr. J. D. Jenkins, Rhydybanau; Mr. D. Evans, Llandysul; a Mr. J. Davies, Blaenwaun, Cellan. Yn aelodau o Fyrddau Ysgol—Mr. D. Hughes, Rhydyfydyr, a'r Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar. O Fwrdd y Gwarcheidwaid, Merthyr—Mrs. R. J. Jones, a'r Parch. Hathren Davies. Mae yr olaf hefyd yn aelod o Gynghor Dosbarth y Faenor a Phenderyn.

Llundain.—Er gwaethaf anhawsderau aneirif, da genym weled fod Undodiaid Cymreig Llundain yn parhau i wasgu yn y blaen gydag egwyddorion y ffydd ryddfrydig. Oherwydd afiechyd, ac anallu i roddi yr amserau angenrheidiol, rhoddodd Mr. Delta Evans flaenoriaeth y Mudiad i fyny yn nechreu y gauaf, ar ol llafurio yn ddiwyd fel arweinydd am dros ddwy flynedd; ac yn awr, mae yn flin genym ddeall fod Mr. Dan Jones wedi ymddiswyddo fel ysgrifenydd. Parha y brodyr hyn eto i wneyd yr hyn a allont, er mai mewn tipyn o anhrefnusrwydd y mae pethau yn awr, yn fwy na dim, efallai, o eisieu arweinydd. Yr ysgrifenydd newydd yw Mr. Jos. Davies, a phrin y gallesid cael neb cymhwysach i'r swydd. Y mae cryn dipyn o aberth—o amser ac o arian—wedi ei wneyd gan rai o'r cyfeillion er ceisio sefydlu achos Cymreig yn y Brifddinas, a gresyn fuasai i'r oll fyned yn ofer yn unig oherwydd diffyg cynllun *systematic* wrth ba un i weithredu. Wele a ganlyn wahoddiad i Gymry "crwydredig" Llundain i ymweled â'r moddion yn Essex Hall:—"Gydwladwyr Hoff,—Os nad ydych yn arfer mynychu unrhyw le o addoliad, neu os methasoch, hyd yn hyn, ag ymgartrefu mewn unrhyw gapel neu eglwys Gymreig yn y Brifddinas, rhoddir gwahoddiad cynes i chwi i'r moddion yn y lle uchod. Credwn yn sicr y cewch ynddynt afael ar rywbeth a'ch cynorthwya i ymladd yn fwy calonog a llwyddianus yn y frwydr fawr yn erbyn pechod—rhywbeth a duedda i wasgaru yr ofnau, ac i yru ymaith amheuon ac anobaith crefyddol—fel ag i enyn ynoch gariad dyfnach at wirionedd a rhinwedd; ac hefyd, o bosibl, ambell i belydryn o oleuni ar amgylchiadau tywyll a dyrys bywyd. Y mae Undodiaeth, nid yn unig yn caniatau, ond yn cymhell rhyddid crefyddol a chwilfrydedd parchus. Nid oes ganddi ddim i'w ofni oddiwrth flaenfynediant meddyliol a beirniadaeth fanwl yr oes. Dysga yn arbenig fod un Duw, a dim ond un; dysga hefyd ysbrydoliaeth pob gwirionedd sydd yn dyrchafu ac yn urddasu bywyd; Tadoliaeth Duw a brawdoliaeth dyn, fel y dysgai Iesu; ac nad yw iachawdwriaeth yn dibynu o gwbl ar opiniynau, ond ar uniondeb calon a phurdeb cymeriad."—*D. D. E.*

Dr. Griffiths yn Ngogledd Cymru.—Deallwn fod yn mwriad y boneddwr uchod dalu ymweliad arall â'r Gogledd. Dymunwn iddo lwyddiant mawr. Dilynir ei symudiadau gyda dyddordeb gan ei frodyr yn y Deheubarth. Ceir arwyddion eisoes nad yw yr ymweliad yn rhoi boddlonrwydd i bawb. Yn Mhwllheli a Ffestiniog, yr ydys wedi gwrthod y Neuaddau Cyhoeddus iddo ar dâl; a dynoethir y culni gan y *Carnarvon and Denbigh Herald* a chan yr *Herald Cymraeg.* Cyfeiria y papyr Saesoneg sylw ei ddarllenwyr at hen lyfr yr enwog Jeremy Taylor, a ysgrifenwyd ganddo pan ar ffo yn nghymydogaeth Llandeilo yn 1647. Enw y llyfr oedd "Liberty of Prophesying," a'i amcan oedd nodi allan yr afresymoldeb o geisio penderfynu ffydd pobl ereill, a'r pechod o erlid oherwydd opiniwn. Rhydd yr *Herald Cymraeg,* dan y penawd, "Ffestiniog: Cynghor Dinesig," yr hanes canlynol: "Derbyniwyd llythyr oddiwrth Mr. William Griffiths, M.A., yn gofyn am wasanaeth yr *Assembly Rooms* at draddodi darlithoedd ar 'Undodiaeth.' Ar ol dadl frwd, pasiwyd trwy fwyafrif o un i beidio caniatau y cais. Mr. Cadwaladr Roberts: Rhoddwch yr enwau ar lawr fel y mae pawb wedi pleidleisio Mae yn syn genyf weled fod neb o aelodau y Cynghor yn pleidleisio drosto. Buaswn yn dysgwyl gwell pethau oddiwrthynt. Mae genym ein credoau, ac nid oes arnom eisieu eu cyfnewid. Mae credoau llawer un yn y lle yn ddigon sigledig heb ganiatau i un fel hyn ddyfod yma." Yn rhifyn Mawrth 8fed, y mae gan yr *Herald Cymraeg* erthygl ragorol ar ryddid meddwl, barn, a llafar. Dro yn ol, bu darlithiwr Pabyddol ar daith drwy Wynedd, a chafodd bob chwareu teg. Ni wyddys iddo fethu cael neuadd yn un man, a phaham, tybed, y gwrthodir i Dr. Griffiths?

MARWGOFION.

Chwefror 11eg, yn 12 mis oed, John, baban bychan John ac Elizabeth Evans, Porthyrhyd, Dyffryn Clettwr, Llandysul. Y dydd Llun canlynol i'w farwolaeth claddwyd yr un bychan yn mynwent newydd Llwynrhydowen, pryd y cyflawnwyd y gwasanaeth arferol gan y Parch. Thomas Thomas, Y.H., Green Park.

Chwefror 17eg, yn 66 oed, David Davies, wedi ychydig ddiwrnodau o gystudd, nid trwm. Hen ddyn hynod barchus gan ei gydnabod, a'i fywyd yn y llwybr Undodaidd. Cofus genym lawer tro ei glywed yn gwrthod rhoi anghymeradwyaeth yn yr Ysgol Sul i Judas, y bradychwr. Ond beth dâl siarad, amser a gofod wrthodant fanylwch. Claddwyd ef y dydd Mawrth dilynol yn mynwent hen gapel bychan y Methodistiaid, tuag ergyd careg o'i bseswylfod. Pregethodd y Parch. T. J. Jenkins, a chynorthwywyd ef gan y Parchn. J. T. Davies (A.), a J. R. Morgan (M.C.), Pontardawe. Mae wedi gadael gweddw a phlant yn nyffryn Bacca. Ymfoddloned y cyfryw yn y drefn, gan wneuthur eu Tad, yr Hwn sydd yn y nefoedd, yn nôd eu bywydau.

Chwefror 18fed, yn 14 mlwydd oed, Catherine, anwyl ferch Mary Davies, Tyrhos, Gwarllwynoidos. Cafodd gystudd hir a chaled. a dyoddefodd y cyfan yn dawel. Mynychai yr Ysgol Sul yn Pantdefaid yn ffyddlon tra y gallodd, ond pan megys ar ddechreu y daith, aeth ei haul i lawr. Neith a gaffo y fam a'r plant i ddal i fyny yn obeithiol yn ngwyneb colli un ag oedd yn anwyl iddynt. Y dydd Mawrth canlynol, gosodwyd yr hyn oedd farwol ohoni i orwedd yn nghladdfa Pantdefaid, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. Thomas Thomas, Y.H. Ar ddydd Sul, Mawrth 6ed, traddodwyd y bregeth angladdol gan y Parch. T. Arthur Thomas, yn Mhantdefaid.

Chwefror 27ain, yn 76 mlwydd oed, Anne Jones, Wern-newydd, Llanfihangel Egwan ac eiddil y bu iechyd yr ymadawedig y blynyddau diweddaf o'i hoes,

ond er hyny, bu yn ddiwyd a llafurus i fagu i fyny nifer lluosog o blant, ac y maent heddyw mewn amgylchiadau cysurus, ac yn aelodau defnyddiol mewn cymdeithas yn y manau lle maent yn byw. Nerth a gaffont oll i gadw yn fyw ei choffadwriaeth ar y ddaear. Y dydd Mercher canlynol cludwyd ei gweddillion i'w gosod yn mynwent Pantdefaid. Cynaliwyd y gwasanaeth arferol yn y tŷ gan y Parch. T. Arthur Thomas, a phregethwyd, yn ol dymuniad yr ymadawedig, gan y Parch. Thomas Thomas, Y.H.

Chwefror 27ain, yn 23 oed, ar ol hir gystudd, ond nid caled, Samuel Davies, Bodawel, Llanwnen. Y darfodedigaeth gipiodd ein brawd ymaith, a hyny yn nghanol ei ddyddiau a'i nerth. Yr oedd arwyddion o'r clefyd hwn wedi dangos ei hun yn ei gyfansoddiad er's rhai blynyddau, a bu yn achos i wneyd bwlch mawr mewn teulu Gadawodd briod, a thri o blant, rhieni, brodyr, a chwioryddi alaru ar ei ol. Claddwyd ef y dydd Iau canlynol yn mynwent Capelygroes, pryd y daeth tyrfa luosog o gynhebrwng yn nghyd i dalu iddo y gymwynas olaf, ac i gydymdeimlo â'r teulu yn eu galar. Pregethwyd yn y tŷ gan y gweinidog, a chynorthwywyd gan y Parchn. J. Davies a D. Evans. Duw fyddo yn nodded iddynt yn eu trallod.

Chwefror 28ain, yn 29 oed, Evan Davies, Tanybryn, ger Cribyn. Trist i'n teimladau yw gorfod ymadael â dynion ieuainc defnyddiol fel ein cyfaill ymadawedig. Yn ein golwg ni, symudwyd ef ymaith lawer yn rhy gynar—pan oedd haul dydd ei ddefnyddioldeb ond megys newydd dd'od i'r golwg dros y gorwel. Bu ei ddyddiau yn fyr; ond mae yn gysur i ni i feddwl nad yw gwerth bywyd yn ymddibyn ar ei hyd, ond ar ei ffyddlondeb, a'i ddidwylledd, a'i weithgarwch; ac yn ol y safon hon, yr oedd bywyd ein cyfaill yn sefyll yn uchel. Mae ei waith fel adeiladydd yn nghymydogaeth Cribyn yn ystod y blynyddau aethant heibio, yn engraifft ardderchog o'r hyn all un dyn wneyd. Bellach, nid oes gyda ni ddim i wneyd ond meddwl am ei esiampl o fywyd diwyd a gweithgar, a chymeriad dichlynaidd a didwyll. Gadawodd wraig, mam, dau frawd, a chwaer, yn nghyda lluaws o berthynasau i alaru ar ei ol. Nerth a gaffont i wneyd hyny yn gymedrol. Claddwyd ei weddillion yn mynwent Capelygroes y dydd Gwener canlynol. Pregethwyd yn y tŷ gan D. E., Cribyn; yn y capel ac ar lân y bedd gweinyddwyd gan y Parchn. E. E. Jenkins a J. Davies.

Mawrth 3ydd, Margaret Bowen, gweddw y diweddar Daniel Bowen, Cefneithrim, ger Clydach, yn 87 mlwydd oed. Dyoddefodd yn amyneddgar am flynyddau lawer, nes i oedran mawr ei goddiweddyd. Bu yn un o aelodau ffyddlonaf eglwys Gellionen yn ei hamser. "Yr hyn a allodd hon, hi a'i gwnaeth." Dydd y cynhebrwng oedd y Mawrth dilynol; daearwyd y rhan farwol ohoni yn naear claddfa Gellionen. Gwasanaethwyd gan y gweinidog, y Parch T. J. Jenkins. Llawenyched y galarwyr yn Nuw pob dawn, yn y grediniaeth fod pob peth er daioni.

Mawrth 8fed, ar ol cystudd hir, yn 58 mlwydd oed, Elizabeth, anwyl briod David Jones, Faenog-ganol, plwyf Dihewyd, Ceredigion. Claddwyd hi y Gwener canlynol yn mynwent yr Annibynwyr, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca. Yr oedd y dyrfa fawr a ddaeth yn nghyd i'r angladd yn ddangoseg o'r parch a deimlid tuag at yr ymadawedig a'i theulu. Gadawodd i alaru'n ddwys ar ei hol briod, pedwar o blant, ei mam yn ei hen ddyddiau, yn nghyda brodyr a chwiorydd. Nerth a gaffont oll i alaru yn gymedrol, ac i ymbarotoi i gael ailgyfarfyddiad dedwydd yn y wlad lle nad oes ymadael mwy.

Mawrth 16eg, Ann, gweddw y diweddar D. Thomas, ger llaw yr Hen Dŷ Cwrdd, Cefn, yn 66 oed. Yr oedd yr ymadawedig a'i phriod yn dra adnabyddus i bawb a ymwelent â'n capel yn y Cefn, gan eu bod wedi trigianu ar bwys y capel am flynyddau lawer. Ni fu yn hir yn glaf, a daeth y wŷs yn dawel. Claddwyd y gweddillion y Sadwrn dilynol yn mynwent yr Hen Dŷ Cwrdd, pryd y gwasanaethwyd gan y gweinidog.

Joseph Williams, Argraffydd, Swyddfa'r "Tyst," Glebeland, Merthyr.